



YMUNWCH Â NI

Grŵp Ymgynghorol Annibynnol
PECYN GWYBODAETH I
YMGEISWYR



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

RAISING AWARENESS - REDUCING RISK

PWY YDYM NI

“I WNEUD DE CYMRU'N DDIOGELACH, TRWY LEIHOU RISG”

Ni yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'n gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd sy'n gyrru ac yn cymell ein pobl i wneud de Cymru'n fwy diogel, drwy leihau risg. Ein nod yw amddiffyn a gofalu am y 10 Awdurdod Unedol sy'n creu ein hardal amrywiaethol trwy weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr gwasanaethau rheng flaen eraill

Rydym yn cyflogi tua 1700 o bobl ar draws De Cymru mewn cymysgedd o rolau Gweithredol a Chorfforaethol, gyda'r rhan fwyaf o'n staff corfforaethol wedi'u lleoli yn ein pencadlys yn Llantrisant.

Cefnogir y gwasanaethau rheng flaen a ddarperir gan Staff Gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan nifer o dimau, sy'n cyflawni rolau gweinyddol a thechnegol. Mae Staff Gweithredol a Chorfforaethol yn cydweithio'n agos i ddarparu lefel uchel o wasanaeth i gymunedau De Cymru

Mae Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant a Thegwch yn flaenoriaeth i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac mae gennym ymrwymiad i ymdrechu i adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

PROFFIL SWYDD

Dylech chi gyflwyno eich cais erbyn: 12:00 hanner dydd, 5ed Mai

Mae Grŵp Cyngori Annibynnol (GCA) Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn grŵp newydd sy'n rhan o'n strwythur llywodraethu a fydd yn cyflawni rôl hanfodol fel 'cyfaill beirniadol' mewn perthynas â'n polisiau a'n prosesau.

Yn y grŵp gall aelodau annibynnol gynnig cyngor yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u profiad bywyd a chyfrannu at genhadaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru o **'Wneud De Cymru'n Fwy Diogel drwy Leihau Risg'**.

Rôl y GCA yw darparu cyngor anffurfiol i'r Gwasanaeth gyda ffocws arbennig ar sicrhau ein bod yn deall ac yn gallu ymateb i anghenion ein holl gymunedau a'n staff. Mae'n bosib y gofynnir i'r grŵp roi sylwadau a llywio'r polisiau a'r gweithdrefnau sy'n cael eu rhoi ar waith yn ogystal â materion gweithredol parhaus a allai effeithio ar gymunedau De Cymru.

Mae arnom angen pobl ag angerdd, ymrwymiad, dealltwriaeth o ystod o feysydd gan gynnwys y sector cyhoeddus, y sector preifat, newid diwylliannol, y sector gwirfoddol, arolygu a D.I.C.E i sicrhau ein bod yn cyflawni ar gyfer cymunedau De Cymru yn ogystal â chreu gweithle diogel, modern lle mae pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch, ac yn rhydd rhag gwahaniaethu, bwlio ac aflonyddu.

I gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltwch â'r **Tîm Recriwtio** ar: **01443 232200**

- **Contract:** Gwirfoddol (telir costau teithio rhesymol)
- **Graddfa:** Argaeledd fel y nodir yn y Proffil Swydd
- **Lleoliad:** Cyfarfodydd i'w cynnal ym Mhencadlys GTADC yn Llantrisant a/neu ar Microsoft Teams

SWYDD-DDISGRIFIAD

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn cyfeirio at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw o reidrwydd yn rhestru'n fanwl yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Bydd y disgrifiad swydd hwn yn cael ei adolygu yn ôl yr angen i sicrhau ei fod yn cwrdd â gofynion busnes y Gwasanaeth.

Proffil Rôl

Fel aelod o'r GCA bydd eich barn annibynnol yn helpu i lunio polisi Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a darparu trawsnewid cynaliadwy ar draws y Gwasanaeth ill ddau. Byddwch yn cytuno i:

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd bob 6 wythnos (yn amodol ar adolygiad) fel aelod o'r Grŵp.
- Darparu o leiaf 24 mis ar y panel (lleiafswm o 16 cyfarfod - yn amodol ar adolygiad).
- Darparu cyngor annibynnol ar faterion penodol a nodwyd ac y cytunwyd arnynt gan GTADC megis polisïau, arferion, gweithdrefnau a digwyddiadau critigol GTADC.
- Darparu arweiniad, mewnwelediad personol a her adeiladol sy'n adlewyrchu eich persbectif, gwybodaeth a chefnidir.
- Cynnal perthynas waith da ag aelodau eraill o'r GCA, personél GTADC ac unrhyw bartïon eraill â diddordeb.

Manyleb Person

Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer rôl aelod GCA fodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid bod chi ddim yn aelod o staff GTADC.
- Rhaid bod yn barod i gyfrannu amser, egni ac ymrwymiad i fynychu cyfarfodydd rheolaidd.
- Rhaid bod yn barod i weithio'n adeiladol gyda GTADC, ac aelodau GCA eraill.
- Dangos y gallu i wrando ar farn pobl eraill a'i hystyried, a thrin pawb yn deg, gydag urddas a pharch.
- Rhaid ufuddhau i God Moeseg Craidd CCPT a gwerthoedd GTADC.
- Rhaid bod gennych chi ddim gwrthdaro buddiannau achos gwaith neu rolau gwirfoddoli eraill (bydd hyn yn cael ei ystyried fesul achos).
- Rhaid gallu delio â gwybodaeth gyfrinachol a'i rheoli'n briodol.
- Gallu arddangos y gallu i gwestiynu, herio, pwysu a mesur materion a llunio barn gytbwys, resymol a chymesur.

Er nad yw'n hanfodol, byddai dda bod gan yr aelod rywfaint o brofiad o:

- Gweithio gyda phobl eraill ar faterion o ddiddordeb cyffredin dros gyfnod o amser.
- Rhannu eu barn a'u problemau ag eraill.
- Cydbwysu ymrwymadau ac amser mewn modd effeithiol.
- Rhyngweithio neu weithio gyda phobl â barn wahanol i'w barn nhw.
- Mynychu cyfarfodydd a gwneud cyfraniad cadarnhaol ac adeiladol.
- Gweithio gyda, a gwneud penderfyniadau fel rhan o dîm neu grŵp.

Yn ogystal â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a nodir uchod, bydd gofyn i ddeiliad y swydd:

1. Cymhwyso egwyddorion Gweithdrefn Urddas yn y Gweithle a Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaeth wrth gyflawni eu dyletswyddau.
2. Amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion sy mewn perygl o niwed, gan adrodd am unrhyw bryderon diogelu gan ddefnyddio Gweithdrefn Diogelu'r Gwasanaeth.
3. Cydymffurfio â Deddfwriaeth a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch a Lles yn ogystal â chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun ac eraill.

CYFRIFOLDEBAU'R PANEL

Ym mis Ionawr 2024 cyhoeddwyd Adroddiad yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol gan Fenella Morris CB. Yn fuan wedyn ym mis Chwefror 2024 daeth ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru i ddisodli'r Awdurdod Tân ac Achub â phedwar Comisiynydd, gyda'r dasg o sicrhau newid diwylliant fel rhan o gylch gorchwyl penodol.

O ganlyniad i'r 82 o argymhellion Fenella Morris CB yn ogystal ag effaith adroddiadau eraill gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (CCPT) a Llywodraeth Cymru a oedd yn galw am newid ar draws y sector tân ac achub, cafwyd rhestr helaeth o faterion ar gyfer mynd i'r afael â hwy. Mae hyn wedi gofyn am gydgysylltu ein hymagwedd i sicrhau nad ydym yn colli golwg ar y newidiadau y mae'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol yn galw amdanynt wrth gyflawni newid ehangach yn effeithiol ac yn effeithlon.

Mae'r Comisiynwyr ac uwch arweinwyr GTADC wedi ymrwmo i wneud y newidiadau angenrheidiol i greu gweithle modern, diogel lle mae pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch, ac yn rhydd rhag gwahaniaethu, bwlio ac aflonyddu.

Cyfrifoldebau

Er mwyn gweithredu'n llwyddiannus y lefel o newid a thrawsnewid sydd ei angen ar draws y Gwasanaeth, bydd y GCA yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol', gan heriau a rhoi adborth ar gynigion a syniadau. Ni fydd y grŵp yn gorff gwneud penderfyniadau ond bydd ganddo'r cyfrifoldebau canlynol:

1. Cefnogi cenhadaeth y Comisiynydd i sicrhau y gellir ymddiried yn GTADC i wasanaethu ac amddiffyn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.
2. Cefnogi'r Comisiynwyr a'r uwch-berchennog cyfrifol i wneud y newidiadau sydd eu hangen i ddiwylliant GTADC yn unol â'r Adolygiad Diwylliant annibynnol.
3. Helpu i sicrhau ansawdd a gwella meddylfryd a chynlluniau GTADC trwy ddarparu cyngor ar newidiadau neu syniadau newydd.
4. Cynghori ar ddatblygu strategaethau neu syniadau newydd ar gyfer GTADC.
5. Darparu cymorth lle mae arbenigedd ac adnoddau'n caniatáu.

Y BROSES YMGEISIO

Dylai ymgeiswyr lenwi ein ffurflen tystiolaeth llunio rhestr fer.
Dylai hwn fynd i'r afael â'r cwestiynau isod gydag ymateb nad yw'n fwy na 1000 gair fesul cwestiwn (Uchafswm 2000 Gair)

Cwestiwn 1: Eglurwch pam fod gennych ddiddordeb mewn dod yn aelod o'r GCA (Peidiwch â defnyddio mwy na 1000 o eiriau)

Cwestiwn 2: Gan ddefnyddio'r Proffil Rôl a Manyleb y Person, dywedwch wrthym ba sgiliau, profiad a rhinweddau y byddech yn eu cyflwyno i'r GCA (Peidiwch â defnyddio mwy na 1000 o eiriau)

Wrth ateb y cwestiynau uchod, ystyriwch ddefnyddio dull megis 'STAR'

Mae hon yn ffordd ddefnyddiol o ddisgrifio profiadau'r gorffennol ac i strwythuro ateb trwy ystyried y Sefyllfa, y Dasg, y Weithred a'r Canlyniad i arddangos eich cyflawniad yn eglur.



SUT | YMGEISIO

Ymgeiswyr Allanol

Mewngofnodwch i'n gwefan yn: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/-swyddi-gwag

Dewiswch y rôl o'r 'Swyddi Gwag Presennol' a chliciwch ar y ddolen ar gyfer ein system e-recriwtio.

Sicrhewch fod pob adran o'r ffurflen gais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

Pob Ymgeisydd

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, megis print bras neu gefndir gwyn neu liw, neu fel arall angen ffurflen gais bapur, cysylltwch â'n tîm Recriwtio yn recriwtio@decymru-tan.gov.uk neu ffoniwch ni ar 01443 232300 a byddwn yn ymdrechu i helpu cyn gynted â phosibl.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweiliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Gwiriadau Recriwtio Allanol

Bydd yr holl ymgeiswyr allanol yn destun y gwiriadau recriwtio canlynol cyn eu penodi:

- Gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Gwiriadau hawl i weithio.
- Gwiriadau meddygol, iechyd a ffitrwydd.
- Gwiriadau trwydded yrru.
- Gwiriadau Tystlythyron.

Cod Moeseg Craidd CCPT

RHOI EIN CYMUNEDAU YN GYNTAF: Rydym yn blaenoriaethu lles y cyhoedd, y gymuned a defnyddwyr gwasanaeth.

UNIONDEB: Rydym yn gweithredu gydag uniondeb, gan gynnwys bod yn agored, yn onest ac yn gyson ym mhopeth a wnawn.

URDDAS A PHARCH: Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol ar sail tystiolaeth, heb wahaniaethu na thuedd.

ARWEINYDDIAETH: Rydym i gyd yn fodolau rôl cadarnhaol, bob amser yn dangos hyblygrwydd ac arweinyddiaeth hydwyth. Rydym i gyd yn atebol am bopeth a wnawn ac yn herio pob ymddygiad nad yw'n cyrraedd y safonau uchaf.

CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIAD: Rydym yn cydnabod ac yn hyrwyddo gwerth CAC yn barhaus o fewn GTADC a'r cymunedau ehangach yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn sefyll yn erbyn pob math o wahaniaethu, yn creu cyfle cyfartal, yn hyrwyddo cydraddoldeb, yn meithrin cysylltiadau da ac yn dathlu gwahaniaeth.



Dyma'r sylfaen ar gyfer ein gwerthoedd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a bydd yn ein helpu i greu amgylchedd sy'n groesawgar, yn oddefgar ac yn ddiogel, heb unrhyw le i ymddygiadau amhriodol a chmau gweithredu sy'n bygwth, amharchu neu'n dychryn eraill



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

South Wales Fire and Rescue Service

Recruitment & Retention Team
Fire Service Headquarters
Forest View Business Park
Llantrisant
CF72 8LX

Recruitment Line – 01443 232200
recruitment@southwales-fire.gov.uk



www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us

SCAN ME

